

## Maddeuant

### Darlleniad: Mathew 18: 21-35

---

---

Arglwydd ein Duw, dewn ger dy fron â diolch ac â mawl yn ein calonnau, wrth nesáu at Dduw sydd yn maddau. Oni bai am hyn ni fyddai modd inni ddod ger dy fron o gwbl. Rhyfeddwn at y ffaith dy fod yn maddau holl bechodau dy bobl, yn wir dy fod yn eu taflu i eigion y môr.

‘Pa dduw sy’n maddau fel Tydi  
Yn rhad ein holl bechodau ni?’

Er nad oes modd inni dalu am dy faddeuant, sylweddolwn yn ostyngedig ei fod wedi costio’n ddrud iawn i ti. Credwn dy fod yn maddau ac yn dileu pechod dy bobl oherwydd bod Crist dy Fab wedi offrymu ei hun yn iawn drosom ni. Credwn fod ein pechod dychrynlyd ni wedi ei gyfrif iddo ef yn ei farwolaeth, a bod ei gyfiawnder ef yn cael ei gyfrif i ni trwy ffydd ynddo.

‘Caed trefn i faddau pechod  
Yn yr Iawn,  
Mae iachawdwriaeth barod  
Yn yr Iawn,  
Mae’r Ddeddf o dan ei choron,  
Cyfiawnder yn dweud, Digon!  
A’r Tad yn gweiddi, Bodlon!  
Yn yr Iawn;  
A diolch byth, medd Seion,  
Am yr Iawn.’

Diolchwn fod dy faddeuant yn ein rhyddhau o gaethiwed pechod. Diolch bod gennym ryddid oddi wrth gondemniad pechod, sef marwolaeth dragwyddol. Diolch ein bod yn rhydd oddi wrth gaethiwed pechod, yn rhydd i beidio â phechu, trwy nerth dy lân Ysbryd. Diolchwn hefyd y byddwn yn gwbl rydd o olion pechod yn ein hysbryd a’n corff yn niwedd y byd.

‘Felly os yw’r mab yn eich rhyddhau chwi, byddwch yn rhydd mewn gwirionedd.’

Diolch, hefyd, am y rhyddhad a ddaw i bechadur wrth wybod bod ei bechodau wedi eu maddau yn enw Iesu Grist. Diolch bod pwysau euogrwydd pechod yn cael ei symud. Diolch bod rhestr ein dyledion, ein biliau yn y nef, wedi eu croesi, trwy aberth Calfaria. Diolch nad oes angen edrych dros ein hysgwydd at y gorffennol, ond bod i ni obaith byw i’r dyfodol. Diolch bod ein maddeuant yn dibynnu ar haeddiant y Groes ac nid ar ein haeddiant ni, oherwydd nid ydym yn haeddu dim ond melltith y nef.

‘Euogrwydd fel mynyddoedd byd  
Dry’n ganu wrth dy Groes.’

Helpa ni i faddau i eraill fel yr wyt ti wedi maddau i ni. Gwared ni rhag meddwl bod gennym yr hawl i wrthod maddeuant, tra ydym ni, fel Cristnogion, yn byw arno o ddydd i ddydd. Rho i ninnau ras i faddau heb gyfiawnhau pechod, yn ôl dull ein Harglwydd bendigedig. O! Dad, gwna ni’n faddeugar!

Gofynnwn heddiw eto am dy faddeuant. Deuwn eto i geisio glanhâd trwy waed y groes. Deuwn eto at y ffynnon sydd yn golchi’r mwyaf ffaidd, heb sychu byth.

‘Arglwydd, maddau eto i minnau,  
Ar faddeuant ’rwyf yn byw:’

Clodforwn di’n awr, O! Arglwydd grasol, am dy faddeuant, ac edrychwn ymlaen at glodfori gogoniant dy ras i dragwyddoldeb maith. Amen.

*John Treharne*